Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Cefn Meiriadog
# Groesffordd Marli
# Abergele
# Sir Ddinbych
# LL22 9DS
# Y Deyrnas Unedig

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/12/2013**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Cefn Meiriadog ym mhentref Cefn Meiriadog, ger tref Llanelwy, yn awdurdod lleol Sir Ddinbych. Daw disgyblion o ystod eang o gefndiroedd ac maent yn byw yn y pentref neu'r ardaloedd gwledig cyfagos.

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng tair ac 11 oed. Mae 75 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd, gan gynnwys naw disgybl sy'n mynychu'r feithrinfa yn rhan-amser. Mae niferoedd y disgyblion yn debyg i'r niferoedd adeg yr arolygiad diwethaf. Mae'r ysgol wedi'i threfnu yn bedwar dosbarth oedran cymysg. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel mamiaith nac yn cael cymorth ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig ac mae ychydig iawn o ddisgyblion yn dod o gefndiroedd ethnig cymysg.

Mae gan un deg wyth y cant o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n is na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru gyfan. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan 21% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes gan unrhyw ddisgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er Medi 2006, ac yn Hydref 2007 yr arolygwyd yr ysgol ddiwethaf.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Cefn Meiriadog yn 2013-2014 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,348 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Sir Ddinbych yw £8,594 a'r isafswm yw £3,159. Mae Ysgol Cefn Meiriadog yn y 25ain safle o'r 48 o ysgolion cynradd yn Sir Ddinbych o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Y farn gyffredinol am berfformiad presennol yr ysgol yw da oherwydd:

- mae bron pob un o'r disgyblion yn cyflawni safonau da mewn llawer o agweddau ar eu gwaith;
- mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol at ddysgu;
- mae bron yr holl addysgu o safon uchel;
- mae darpariaeth dda ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol; ac
- mae'r ysgol yn darparu amgylchedd gofalgar a chefnogol ar gyfer disgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r pennaeth yn darparu cyfeiriad clir ar gyfer yr ysgol gyda ffocws cryf ar wella safonau;
- mae staff yn gweithio gyda'i gilydd fel tîm agos sydd wedi'i gymell yn dda;
- mae'r broses hunanarfarnu yn nodi meysydd i'w gwella yn gywir, ac adlewyrchir hyn yng nghynllun datblygu'r ysgol; ac
- mae cynllunio ar gyfer gwella yn effeithiol wrth godi safonau a gwella darpariaeth.

## Argymhellion

A1 Codi safon y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2 a sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn gwneud defnydd da o'u medrau Cymraeg yn ystod y diwrnod ysgol

A2 Datblygu'r ddarpariaeth ar gyfer cymhwyso medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A3 Sicrhau bod trefniadau clir i ymdrin â dyletswyddau arweinyddiaeth yn absenoldeb y pennaeth

A4 Datblygu rôl y corff llywodraethol wrth herio'r ysgol a monitro cyllid yn drylwyr i sicrhau defnydd priodol ac amserol o'r cyllid sydd ar gael

A5 Gwella'r toiledau sydd ar gael i ddisgyblion

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae disgyblion yn cynrychioli'r ystod gallu llawn, ac mae eu cyrhaeddiad wrth gychwyn yn yr ysgol yn debyg i'r cyfartaledd lleol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Gallant alw dysgu blaenorol i gof yn gadarn ac maent yn cymhwyso eu dysgu'n dda mewn sefyllfaoedd newydd.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau siarad a gwrando yn dda. Mewn gwersi, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n astud ar staff ac ar ei gilydd. Mae disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2 yn siaradwyr hyderus sy'n mynegi eu hunain yn dda.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau darllen. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn siarad yn wybodus am eu hoff awduron ac ystod o lyfrau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn darllen testunau'n gywir ac yn siarad am yr hyn y maent wedi'i ddarllen gyda dealltwriaeth. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn ddarllenwyr hyderus. Gallant ragweld sut gallai stori ddatblygu a'r canlyniad posibl.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Mae disgyblion hŷn yn y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu'n estynedig ac yn defnyddio geirfa ddiddorol. Maent yn dechrau gwneud defnydd da o atalnodi sylfaenol, yn ffurfio llythrennau yn gywir ac yn sillafu geiriau syml yn gywir. Wrth i ddisgyblion symud trwy gyfnod allweddol 2, maent yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n dda. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn creu gwaith wedi'i gyflwyno'n dda sy'n fywiog a diddorol. Mae disgyblion yn gwneud defnydd da o'u medrau cyfathrebu i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda mewn gwersi mathemateg. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod dda o ffeithiau rhif gyda dealltwriaeth, gan fesur yn gywir a dangos gwybodaeth ddatblygol am siapiau. Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n dda ar y medrau hyn a chyflawni'n arbennig o dda wrth ddefnyddio data. Fodd bynnag, mae disgyblion yn gwneud defnydd cyfyngedig o'u medrau rhifedd i gefnogi eu gwaith mewn ystod o bynciau eraill.

Mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da ac maent yn magu hyder yn eu gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae disgyblion wedi gwneud cynnydd da mewn ysgrifennu yn Gymraeg ond nid yw eu medrau siarad a darllen yn Gymraeg wedi'u datblygu cystal. Mae pob un o'r disgyblion yn gwneud defnydd annigonol o'u medrau Cymraeg ym mywyd dyddiol yr ysgol.

Mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal â grwpiau eraill o ddisgyblion, ac mae disgyblion ag anghenion ychwanegol yn cyflawni'n dda

yn erbyn y targedau yn eu cynlluniau addysg unigol. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng cyrhaeddiad bechgyn o gymharu â merched.

At ei gilydd, roedd cyrhaeddiad yn 2013 ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn uwch nag ar ddiwedd 2012. Yn 2013, cyflawnodd pob disgybl o leiaf ddeilliant 5 ym mhob maes dysgu. Roedd perfformiad ar ddeilliant 6 mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol ymhell uwchlaw cyfartaledd y teulu, ond roedd perfformiad yn y meysydd dysgu asesedig eraill yn is.

O gymharu ag ysgolion tebyg, roedd safle'r ysgol yn 2013 yn golygu ei bod yn uwch nag yn 2012 ar ddeilliannau 5 a 6 yn y rhan fwyaf o feysydd dysgu. Fodd bynnag, roedd perfformiad mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu, a datblygiad mathemategol, yn golygu ei bod yn y 25% isaf.

Mae perfformiad dros y pedair blynedd diwethaf ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, wedi aros yn gymharol uchel ar y lefel 4 ddisgwyliedig, ac mae wedi gwella ar y lefel 5 uwch. Yn 2013, roedd perfformiad ar lefel 4 yn agos at gyfartaledd y teulu. Roedd cyrhaeddiad ar lefel 5 mewn mathemateg a gwyddoniaeth ymhell uwchlaw cyfartaledd y teulu, ond roedd ychydig yn is mewn canlyniadau Saesneg.

O gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg, mae perfformiad wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf. Yn 2013, roedd perfformiad ar lefel 4 yn golygu bod yr ysgol yn y 50% is neu'r 25% isaf o ysgolion tebyg ar gyfer yr holl bynciau asesedig. Ar lefel 5, roedd perfformiad mewn gwyddoniaeth yn golygu bod yr ysgol yn y 50% is, tra oedd canlyniadau mewn Saesneg a mathemateg yn golygu ei bod yn y 50% uwch neu'r 25% uchaf.

Mae niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn sy'n gallu cael effaith sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd cyfnod allweddol o gymharu â meincnodau cenedlaethol o un flwyddyn i'r llall.

**Lles: Da**

Mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach a diogel, gan gynnwys pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac maent yn gwybod at bwy i droi i gael cymorth os bydd angen. Mae presenoldeb wedi aros uwchlaw 93% am y tair blynedd diwethaf, a chododd i uwchlaw 95% am y flwyddyn ddiwethaf, sy'n cymharu'n dda â phresenoldeb mewn ysgolion tebyg. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Yn ystod gwersi, mae disgyblion wedi'u cymell yn dda ac maent yn dal ati'n dda i ganolbwyntio. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac yn parchu barn pobl eraill. Maent yn ymddwyn yn dda mewn gwersi a'r tu allan iddynt. Maent yn foesgar a chwrtais at ei gilydd ac at oedolion. Mae'r ffordd y mae disgyblion hŷn yn gofalu am y disgyblion iau yn gryfder arbennig.

Mae gan ddisgyblion lefelau da o ymglymiad ym mywyd yr ysgol. Er enghraifft, maent yn rhannu cynllunio eu testunau eu hunain. Mae'r cyngor ysgol yn cynrychioli safbwyntiau disgyblion yn dda ac yn cymryd rhan weithgar mewn mentrau fel datblygu'r ardal awyr agored. Mae disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb mewn rolau

amrywiol o amgylch yr ysgol ac maent yn cyflawni'r rolau hyn yn dda. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau dysgu annibynnol yn effeithiol, gan gynnwys eu gallu i rannu problemau. Nid yw disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen bob amser yn gweithio mor annibynnol ag y gallent ac nid yw disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau meddwl yn gyson. Mae disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth dda o'r gymuned leol ac mae'r ysgol yn eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu dysgu.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o brofiadau dysgu diddorol sy'n cwmpasu'r cwricwlwm yn dda. Mae athrawon yn gwneud defnydd da o fapiau'r cwricwlwm i sicrhau parhad a dilyniant yn nysgu'r disgyblion. Mae'r ysgol yn bodloni anghenion ei disgyblion yn llwyddiannus trwy ddarparu ystod dda o weithgareddau cyfoethogi ysgogol gan gynnwys clybiau prynhawn dydd Gwener, pêl-droed ar draws pob ystod oedran, teithiau ac ymwelwyr. Mae staff yn rhoi cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a'u medrau trin data ar draws y cwricwlwm. Rhoddir cyfleoedd da i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), yn enwedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau meddwl wedi'i datblygu cystal ac ni roddir digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd mewn pynciau eraill.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae darpariaeth dda ar gyfer datblygu medrau Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 adeiladu ar eu medrau wrth siarad a darllen yn Gymraeg yn effeithiol. Nid yw staff yn annog disgyblion yn ddigonol i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i wersi Cymraeg. Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu am hanes a diwylliant Cymru.

Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am gynaliadwyedd ac i hyrwyddo dinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae pob un o'r athrawon yn darparu gwaith sy'n ennyn diddordeb disgyblion. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon brwdfrydig yn creu awyrgylch hapus a bywiog ac maent yn darparu lefel uchel o gymorth ac anogaeth ar gyfer disgyblion. Mae pob un o'r athrawon yn sicrhau bod cyflymder da i'w gwersi a defnyddiant holi medrus sy'n datblygu dealltwriaeth disgyblion. Ym mhob dosbarth, mae gan athrawon berthynas waith dda gyda disgyblion. Ar ddechrau gwersi, mae athrawon bob amser yn rhannu bwriad y wers a'r meini prawf llwyddo gyda disgyblion. Mewn llawer o wersi, mae staff yn cyfeirio'n ôl at y rhain yn ystod y wers ac yn sicrhau bod hyn yn cefnogi dysgu disgyblion yn dda. Mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn cymryd rhan yn llawn mewn gwersi ac yn rhoi cymorth da i unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mewn ychydig iawn o wersi, nid yw athrawon yn herio'r disgyblion mwy abl yn ddigonol.

Mae staff yn asesu cynnydd disgyblion unigol yn rheolaidd a defnyddiant y wybodaeth hon yn effeithiol i gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o asesu hefyd i nodi disgyblion y mae angen cymorth

ychwanegol arnynt. Mae pob un o'r athrawon yn rhoi adborth llafar da i ddisgyblion ac yn marcio gwaith yn rheolaidd. Mae marcio yn effeithiol wrth ddangos i ddisgyblion beth maent yn ei wneud yn dda a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Gwna staff ddefnydd da o osod targedau ar gyfer disgyblion unigol.

Mae adroddiadau i rieni yn gynhwysfawr ac yn bodloni gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu lefel dda o ofal, cymorth ac arweiniad i'w disgyblion. Mae staff yn defnyddio ystod dda o strategaethau a rhaglenni i gefnogi anghenion personol disgyblion, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae staff yn gweithio'n agos gydag ystod o wasanaethau cymorth allanol ac yn defnyddio'u cyngor yn effeithiol.

Mae trefniadau da ar waith i gefnogi lles disgyblion a'u ffyrdd iach o fyw. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Ceir strategaethau effeithiol i annog ymddygiad da ac mae disgyblion yn dysgu sut i gadw'n ddiogel.

Ceir darpariaeth dda ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae staff yn nodi disgyblion ag anghenion ychwanegol yn gynnar. Maent yn cynnal asesiad trylwyr o anghenion disgyblion ac yn defnyddio'r wybodaeth i gasglu cynlluniau addysg unigol ynghyd sy'n darparu lefel dda o her i ddisgyblion. Mae cynorthwywyr addysgu yn rhoi cymorth da i ddisgyblion mewn sesiynau grŵp bach ac unigol. Mae'r ddarpariaeth yn hynod effeithiol wrth sicrhau bod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da. Mae gan y cydlynydd anghenion ychwanegol drosolwg da o'r disgyblion a syniad clir ynghylch sut i'w bodloni.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gynhwysol, yn cynnig mynediad cyfartal at y cwricwlwm ar gyfer pob disgybl ac yn hyrwyddo pwysigrwydd amrywiaeth yn dda. Mae ethos gofalgar ac awyrgylch effeithiol a chefnogol yn yr ysgol.

Mae'r adeilad yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion a chaiff ei gynnal yn dda. Gwna'r ysgol ddefnydd da o'r lle cyfyngedig sydd ar gael. Mae staff yn sicrhau bod yr ystafelloedd dosbarth yn darparu amgylchedd sy'n hyrwyddo dysgu yn llwyddiannus. Mae arddangosfeydd ar waliau yn ddeniadol ac yn cefnogi addysgu a dysgu'n dda. Mae ardal awyr agored yr ysgol yn cynnig cyfleoedd da i wella dysgu disgyblion, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen. Mae nifer ddigonol o adnoddau o ansawdd da i fodloni anghenion pob un o'r disgyblion.

Nid yw'r toiledau yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr ac mae angen eu hadnewyddu.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r pennaeth yn sicrhau bod gan yr ysgol ffocws clir ar gynnal safonau uchel. Mae pob un o'r staff yn gweithio gyda'i gilydd yn agos i greu ethos ysgol gyfan sy'n annog ac yn rhoi gwerth ar waith tîm. Defnyddiant gyfarfodydd rheolaidd a system sefydledig ar gyfer rheoli perfformiad i gefnogi eu datblygiad proffesiynol a symud yr ysgol ymlaen. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar safonau a phrofiadau dysgu disgyblion.

Mae pob aelod o staff yn hyrwyddo gweledigaeth a gwerthoedd cyffredin sy'n rhoi pwys ar ethos gofalgar yn yr ysgol. Mae disgrifiadau swydd priodol ar gyfer pob un o'r rolau staff. Mae gan bob aelod o'r staff addysgu rôl mewn arweinyddiaeth bynciol ond nid yw'r ysgol wedi diffinio trefniadau yn ffurfiol i gynnwys cyfrifoldebau arweinyddiaeth yn absenoldeb y pennaeth.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel strategaethau llythrennedd ac asesu ar gyfer dysgu. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol ac mae'n sicrhau bod yr ysgol yn cyflawni rhwymedigaethau statudol. Mae llawer o lywodraethwyr yn gymharol newydd i'w rôl ond maent wedi cael cryn dipyn o hyfforddiant i ddatblygu eu harbenigedd. Cânt wybodaeth reolaidd am gryfderau'r ysgol, ei diffygion a'i blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Mae ganddynt ddealltwriaeth ddatblygol o ddata perfformiad. Nid yw llywodraethwyr bob amser yn defnyddio eu gwybodaeth i herio'r ysgol yn effeithiol ac nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon clir o sefyllfa ariannol yr ysgol chwaith.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ysgol wedi datblygu proses effeithiol o gynllunio ar gyfer gwella sy'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau a gwella ansawdd. Mae strategaethau hunanarfarnu yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol gan gynnwys arsylwi ystafelloedd dosbarth a chraffu ar waith disgyblion. Mae staff yn defnyddio data perfformiad yn effeithiol ac yn gyson er mwyn monitro a chynllunio ar gyfer gwella safonau. Mae'r ysgol yn gofyn am safbwyntiau disgyblion a rhieni yn rheolaidd ac mae'n defnyddio'r wybodaeth i lywio'r broses hunanarfarnu. Mae'r corff llywodraethol yn cymeradwyo'r adroddiad hunanarfarnu ond nid oes ganddo rôl ddigon gweithredol yn y broses hunanarfarnu.

Mae deilliannau hunanarfarnu yn rhoi asesiad cywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth yn dda i bennu blaenoriaethau a thargedau clir ar gyfer gwella'r ysgol sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun datblygu ysgol manwl. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys targedau perthnasol a phenodol, adolygiadau monitro a chynnydd, yn ogystal â chyfrifoldeb staff a chyllid. Mae meini prawf llwyddiant yn canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau disgyblion.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf, er bod angen gwella safonau o hyd mewn Cymraeg ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 a gwella defnydd disgyblion o fedrau dwyieithog.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae perthynas dda yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhan fwyaf o rieni. Mae'r ysgol yn cynnwys rhieni ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol ac mae'n elwa ar eu cymorth parhaus.

Mae gan yr ysgol berthynas agos iawn gyda'r grŵp cyn-ysgol sy'n cyfarfod yn yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymgyfarwyddo'n dda a'r Cyfnod Sylfaen. Ceir cysylltiadau cryf a threfniadau trosglwyddo effeithiol rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd, a chynigir ystod o weithgareddau pontio pwrpasol ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 6, yn ogystal â darpariaeth ar gyfer disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau da gydag ysgolion cynradd eraill ym maes safoni a moderneiddio gwaith disgyblion. Mae'r broses hon wedi sicrhau ansawdd a chysondeb gwell yn asesiadau'r ysgol. Mae prosiectau eraill a wnaed gyda'r grŵp lleol o ysgolion wedi arwain at ymestyn ystod y gweithgareddau sydd ar gael i ddisgyblion mwy abl.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda'r awdurdod lleol ac yn gwneud defnydd da o'r cyngor a'r hyfforddiant sydd ar gael.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae digon o athrawon a chynorthwywyr addysgu cymwys i gyflwyno pob agwedd ar y cwricwlwm. Mae rheolwyr yn sicrhau bod defnydd da yn cael ei wneud o arbenigedd a phrofiad staff, ac maent yn cynllunio gwaith cynorthwywyr addysgu yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod trefniadau addas yn eu lle i reoli perfformiad pob aelod o staff. Mae'r pennaeth yn rhoi pwyslais da ar ddatblygiad proffesiynol parhaus staff. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn neilltuo digon o amser i rai aelodau o staff gyflawni eu cyfrifoldebau.

Mae'r ysgol yn datblygu fel cymuned ddysgu broffesiynol trwy feithrin cysylltiadau gydag ysgolion eraill yn yr ardal i gyfoethogi profiadau dysgu creadigol disgyblion a chael effaith ar safonau mewn rhifedd.

Mae staff yn gwneud defnydd llawn ac effeithiol o bob rhan o adeilad a thir yr ysgol. Defnyddiant yr adnoddau o ansawdd da yn effeithlon i gefnogi dysgu ac addysgu.

Mae gan yr ysgol gyllideb fawr dros ben ac nid oes cynllun ariannol presennol ar gyfer gwariant. Nid yw'r pennaeth a'r corff llywodraethol wedi monitro cyllideb yr ysgol yn effeithiol er mwyn ymateb i anghenion yr ysgol.

Er bod safonau a darpariaeth yn yr ysgol yn dda, nid yw rheolwyr yn sicrhau bod defnydd da yn cael ei wneud o'r cyllid sydd ar gael i'r ysgol; felly, mae'r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn sy'n gallu cael effaith sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol o gymharu â meincnodau cenedlaethol o un flwyddyn i'r llall.

Yn 2013, roedd cyrhaeddiad ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ar y deilliant 5 disgwyliedig yn uwch nag yr oedd yn 2012. Cyflawnodd pob disgybl o leiaf ddeilliant 5 mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. Roedd perfformiad ar ddeilliant 5 uwchlaw cyfartaleddau Cymru gyfan a'r teulu ym mhob un o'r tri maes dysgu.

O gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg, cododd perfformiad yn neilliant 5 mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu, a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol o'r 50% isaf yn 2012 i'r 25% uchaf yn 2013. Cododd cyrhaeddiad mewn datblygiad mathemategol o'r 25% isaf yn 2012 i'r 25% uchaf yn 2013.

Roedd perfformiad ar ddeilliant 6 yn uwch yn 2013 nag yr oedd yn 2012 ar draws pob maes dysgu. Yn 2013, roedd perfformiad mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol uwchlaw cyfartaleddau Cymru gyfan a'r teulu. Mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol, roedd perfformiad islaw'r ddwy gymhariaeth hon.

O gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg, cododd perfformiad yn neilliant 6 mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol o'r 25% isaf i'r 25% uchaf. Fodd bynnag, disgynnodd cyrhaeddiad mewn datblygiad mathemategol o'r 50% isaf i'r 25% gwaelod, ac arhosodd cyrhaeddiad mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y 25% isaf.

Mae perfformiad dros y pedair blynedd diwethaf ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 wedi aros yn gymharol uchel ar y lefel 4 ddisgwyliedig ac mae wedi gwella ar y lefel 5 uwch. Mae pob un o'r disgyblion wedi cyflawni o leiaf lefel 4 mewn gwyddoniaeth dros y tair blynedd diwethaf.

Yn 2013, roedd perfformiad ar lefel 4 mewn Saesneg a mathemateg yn agos at gyfartaleddau Cymru gyfan a'r teulu, ac roedd perfformiad mewn gwyddoniaeth yn llawer uwch. Roedd perfformiad ym mhob un o'r tri phwnc ar y lefel 5 uwch ymhell uwchlaw cyfartaleddau Cymru yn 2013. Roedd perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth uwchlaw'r cyfartaleddau ar gyfer y teulu o ysgolion tebyg, ond roedd canlyniadau mewn Saesneg ychydig yn is.

O gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg, roedd perfformiad ar lefel 4 mewn Saesneg a mathemateg yn 2013 yn y 25% isaf. Ar lefel 5 yn 2013, roedd perfformiad mewn mathemateg yn y 25% uchaf, roedd perfformiad mewn Saesneg yn y 50% uwch ac roedd perfformiad mewn gwyddoniaeth yn y 50% is.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Holiadur Cynradd (Cyffredinol)

mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | | Number of responses Nifer o ymatebion | | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | | 37 | | 37<br>100% | 0<br>0% | | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | | | 98% | 2% | | |
| The school deals well with any bullying. | | 37 | | 36<br>97% | 1<br>3% | | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | | | 92% | 8% | | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | | 37 | | 37<br>100% | 0<br>0% | | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | | | 97% | 3% | | |
| The school teaches me how to keep healthy | | 37 | | 36<br>97% | 1<br>3% | | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | | | 98% | 2% | | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | | 37 | | 35<br>95% | 2<br>5% | | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | | | 96% | 4% | | |
| I am doing well at school | | 37 | | 37<br>100% | 0<br>0% | | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | | | 96% | 4% | | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | | 37 | | 37<br>100% | 0<br>0% | | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | | | 99% | 1% | | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | | 37 | | 36<br>97% | 1<br>3% | | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | | | 98% | 2% | | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | | 37 | | 32<br>86% | 5<br>14% | | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | | | 91% | 9% | | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | | 37 | | 31<br>84% | 6<br>16% | | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | | | 95% | 5% | | |
| Other children behave well and I can get my work done. | | 37 | | 23<br>62% | 14<br>38% | | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | | | 78% | 22% | | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | | 37 | | 28<br>76% | 9<br>24% | | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | | | 84% | 16% | | |

## Ymatebion i’r holiadur i rieni

mae’n dynodi’r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gry | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 12 | 4 | 6 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 33% | 50% | 17% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 12 | 7 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 58% | 42% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 12 | 9 | 3 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 12 | 6 | 5 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 50% | 42% | 8% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 0% | | |
| Pupils behave well in school. | 12 | 5 | 6 | 1 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 42% | 50% | 8% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 12 | 5 | 5 | 2 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 42% | 42% | 17% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 11 | 4 | 6 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei (g)orau. |
| | | 36% | 55% | 9% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 12 | 5 | 3 | 2 | 2 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 42% | 25% | 17% | 17% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 12 | 5 | 5 | 1 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 42% | 42% | 8% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 12 | 6 | 5 | 1 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 50% | 42% | 8% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 11 | 7 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 64% | 36% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 12 | 5 | 2 | 3 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 42% | 17% | 25% | 0% | | |
| | | 50% | 35% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 12 | 4 | 5 | 3 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 33% | 42% | 25% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gry | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 11 | 5 | 1 | 0 | 5 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 45% | 9% | 0% | 45% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 11 | 3 | 2 | 3 | 2 | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 27% | 18% | 27% | 18% | | |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 12 | 5 | 5 | 1 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 42% | 42% | 8% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 12 | 2 | 3 | 4 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 17% | 25% | 33% | 0% | | |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 11 | 3 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 27% | 73% | 0% | 0% | | |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 11 | 3 | 4 | 1 | 3 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 27% | 36% | 9% | 27% | | |
| | | 61% | 33% | 3% | 1% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mrs Jane Williams | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Mr Peter Duncan Haworth | Arolygydd Lleyg |
| Tim Newbould | Arolygydd Cymheiriaid |
| Jill Bathie | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.